Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gymunedol Heolgerrig
# Ffordd Heolgerrig
# Heolgerrig
# CF48 1SB

## Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2017

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Gymunedol Heolgerrig

Mae Ysgol Gynradd Heolgerrig ym mhentref Heolgerrig ger Merthyr Tudful. Daw'r rhan fwyaf o'r disgyblion o'r gymuned leol. Cyfartaledd treigl y disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim dros y tair blynedd ddiwethaf yw tua 7%. Mae hyn yn llawer is na'r cyfartaledd ar gyfer yr awdurdod lleol a Chymru.

Mae 225 o ddisgyblion ar y gofrestr ar hyn o bryd, gan gynnwys 24 o ddisgyblion meithrin amser llawn. Mae wyth o ddosbarthiadau, gan gynnwys y meithrin. Mae'r ysgol yn derbyn disgyblion i'r meithrin yn dair oed.

Mae'r ysgol yn nodi bod gan ryw 21% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol, sy'n cyd-fynd â'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer ysgolion cynradd. Mae gan ychydig iawn o ddisgyblion ddatganiadau o anghenion addysgol arbennig. Mae bron pob un o'r disgyblion yn siarad Saesneg gartref. Mae ychydig iawn o ddisgyblion yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol.

Cynhaliwyd yr arolygiad diwethaf o'r ysgol yn 2012. Penodwyd y pennaeth, sef y cyn ddirprwy bennaeth, yn 2015. Penodwyd dirprwy bennaeth newydd yn 2015 hefyd.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae'r ysgol wedi gwneud gwelliannau cyflym ers ei harolygiad diwethaf o ganlyniad i arweinyddiaeth gref ac addysgu o ansawdd da. Mae arweinwyr yr ysgol yn gweithio'n bwrpasol ac yn effeithiol, er enghraifft i sicrhau bod gwelliannau i'r ddarpariaeth yn gyson ac yn arwain at ddeilliannau gwell gan ddisgyblion. Mae'r cwricwlwm yn fywiog ac mae athrawon yn darparu llawer o gyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddysgu am bethau sydd o ddiddordeb iddynt. Mae oedolion yn adnabod eu disgyblion yn dda, ac yn gofalu amdanynt yn dda. O ganlyniad, mae bron pob un o'r disgyblion yn mwynhau eu dysgu ac yn gwneud cynnydd da. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda ac yn mynychu'n rheolaidd. Erbyn iddynt adael ym Mlwyddyn 6, mae bron pob un o'r disgyblion yn cyflawni safonau da mewn Saesneg, yn enwedig mewn darllen a llafaredd. Mae bron pob un ohonynt yn gymwys mewn mathemateg ac yn defnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn hyderus.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Gwella safonau ysgrifennu disgyblion yn Saesneg

A2 Sicrhau bod monitro arweinwyr yn canolbwyntio'n graff ar safonau a deilliannau disgyblion

A3 Gwneud defnydd gwell o'r arbenigedd presennol yn yr ysgol i sicrhau bod dysgu ym mhob dosbarth yn symud yn ei flaen ar gyflymdra da

A4 Sicrhau arfer gyson wrth hyrwyddo ymddygiad da

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith o ran y gwelliannau ers yr arolygiad diwethaf, i'w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Mae llawer o ddisgyblion yn dechrau'r ysgol gyda safonau sydd uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer eu hoedran, yn enwedig mewn llafaredd. Gwnânt gynnydd da dros gyfnod ac mae bron pob un ohonynt yn gadael gyda safonau sydd yr un fath â'r lefel ddisgwyliedig, neu'n uwch. Mae'r nifer fach iawn o ddisgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim yn gwneud cynnydd cadarn, ac mae disgyblion ag anghenion ychwanegol yn gwneud cynnydd cryf yn erbyn eu targedau unigol. Mae cyfradd cynnydd disgyblion wedi cynyddu'n sylweddol yn ddiweddar. O ganlyniad, mae'r safonau a gyflawnir ganddynt erbyn Blwyddyn 6 wedi gwella'n sylweddol ers yr arolygiad diwethaf.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn datblygu eu medrau darllen yn dda. Yn y cyfnod sylfaen, mae llawer ohonynt yn dysgu darllen gwahanol synau llythrennau yn gywir, ac maent yn adnabod geiriau cyfarwydd yn gyflym. Maent yn awyddus i drafod eu hoff lyfrau a storïau, ac yn darllen ystod addas o destunau ar goedd gyda mynegiant. Erbyn Blwyddyn 6, mae bron pob un o'r disgyblion yn ddarllenwyr sicr ac annibynnol. Mae llawer ohonynt yn darllen ar goedd yn hyderus a gyda goslef ystyrlon. Gallant resymu a dod i gasgliad trwy gael gwybodaeth o ystod eang o destunau sy'n briodol i oedran, ac maent yn rhoi barn dra ystyriol am yr hyn y maent wedi'i ddarllen.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn siaradwyr huawdl a hyderus. Maent yn mwynhau siarad am destunau sydd o ddiddordeb iddynt, a defnyddiant eu medrau llafar i gyfrannu at redeg yr ysgol yn esmwyth, er enghraifft wrth apelio am bleidleisiau disgyblion eraill fel rhan o'r weithdrefn ethol flynyddol ar gyfer y cyngor ysgol. Fodd bynnag, mae rhai disgyblion yn ei chael yn anodd gwrando'n amyneddgar, er enghraifft wrth aros eu tro i siarad.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ysgrifennu'n effeithiol. Yn y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn datblygu gafael cadarn ar eu pensil ac yn ffurfio eu llythrennau'n gymwys. Gallant sillafu geiriau cyffredin yn gywir a gwnânt ddefnydd da o'u gwybodaeth ffonig i ysgrifennu geiriau anghyfarwydd. Erbyn Blwyddyn 2, gall y rhan fwyaf o ddisgyblion ysgrifennu storïau a cherddi syml gan ddefnyddio iaith a geirfa addas. Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, mae disgyblion mwy abl yn datblygu eu medrau ysgrifennu'n eithriadol o dda. Er enghraifft, ym Mlwyddyn 6, ar ôl astudio sonedau Shakespeare, mae disgyblion mwy abl yn defnyddio'r strwythur a'r patrymau odli i ysgrifennu eu sonedau effeithiol eu hunain mewn iaith gyfoes. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio sgript â llawysgrifen gysylltiedig a thestlus. Fodd bynnag, yn rhy aml, nid yw disgyblion llai abl yn strwythuro eu brawddegau'n ddigon da. Maent yn anghofio defnyddio'r atalnodi cywir, er enghraifft priflythrennau i ddechrau brawddegau. Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ysgrifennu'n briodol mewn ystod dda o genres ffuglen a ffeithiol mewn gwersi Saesneg ac mewn pynciau eraill ar draws y cwricwlwm.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn fathemategwyr cymwys. Ar draws yr ysgol, gwnânt gynnydd da o ran datblygu eu medrau cyfrifo i ddefnyddio pedair rheol rhif yn briodol. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, gall y rhan fwyaf o ddisgyblion fesur yn gywir, a dweud yr amser. Maent yn dehongli gwybodaeth yn gywir o graffiau a

siartiau syml. Erbyn diwedd Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio a chymhwyso eu medrau'n dda i ddatrys problemau a gallant esbonio eu rhesymu. Fodd bynnag, mae medrau rhifyddeg pen llawer o ddisgyblion yn araf, er enghraifft wrth alw i gof eu ffeithiau tablau lluosi. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio eu medrau rhifedd yn briodol mewn meysydd dysgu eraill, er enghraifft wrth lunio graffiau fel rhan o'u gwaith gwyddoniaeth.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau da mewn TGCh. Yn y cyfnod sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn rhaglennu teganau electronig bach yn fedrus, er enghraifft i sicrhau bod y pry cop robot yn cyrraedd ei we. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn defnyddio cyfrifiaduron llechen yn hyderus ar draws ystod eang o gymwysiadau. Erbyn cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion wedi datblygu medrau digidol gwerthfawr sy'n cefnogi eu dysgu a'u medrau bywyd yn effeithiol. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlwyddyn 5 yn gwneud defnydd da o'u gwybodaeth am fformiwlâu mewn taenlenni i gynllunio gwyliau gyda chyllideb sefydlog.

Mae medrau Cymraeg disgyblion yn datblygu'n dda. Mae disgyblion iau yn y cyfnod sylfaen yn canu caneuon a rhigymau yn Gymraeg ac yn defnyddio ymadroddion syml i ddisgrifio teganau mewn gweithgareddau amser cylch. Ar draws yr ysgol, mae disgyblion mwy abl yn darllen llyfrau Cymraeg cyfarwydd yn gywir, gydag ynganiad a dealltwriaeth dda. Mae disgyblion ym Mlwyddyn 6 yn gofyn ac yn ateb ystod o gwestiynau yn gywir. Maent yn siarad yn hyderus am y gemau a'r hobïau y maent yn eu mwynhau, ac yn ymestyn eu brawddegau'n briodol, er enghraifft trwy ddefnyddio 'ond' neu 'achos'.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Da**

Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gwybod at ba aelodau o staff y gallant droi os byddant yn poeni neu'n ddigalon. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall bod angen cadw'n ddiogel ar-lein. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn deall pam y dylent fabwysiadu ffordd iach o fyw, a gallant roi enghreifftiau perthnasol o ddiet iach ac ymarferion defnyddiol i'w cadw eu hunain yn heini. Mae bron pob un o'r disgyblion yn cymryd rhan yn dda mewn gwersi ac maent yn cymryd rhan yn gadarnhaol mewn ystod eang o glybiau a gweithgareddau allgyrsiol, er enghraifft y clwb garddio a chlwb STEM (gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg).

Mae disgyblion yn symud yn synhwyrol ar draws safle'r ysgol. Er enghraifft, mae grwpiau trefnus yn symud yn dawel trwy'r atriwm eang rhwng gwahanol weithgareddau. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ymgynefino'n dda yn y gwahanol feysydd dysgu, ac o ganlyniad, maent yn barod i ddysgu ar ddechrau gwersi.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mwynhau'r ysgol ac maent yn awyddus i ddysgu. Mae gan y rhan fwyaf ohonynt agweddau cadarnhaol at ddysgu, maent yn ymddwyn yn dda, yn canolbwyntio ac yn ymgymryd yn weithredol â'u dysgu. Maent yn cydweithio'n dda, er enghraifft i ddatrys problemau, ac mae llawer o ddisgyblion yn dyfalbarhau â'u gwaith hyd yn oed pan fyddant yn gweld pethau'n anodd. Fodd bynnag, o bryd i'w gilydd, mae angen atgoffa rhai disgyblion sy'n or-frwdfrydig i beidio â thorri ar draws pan fydd disgyblion eraill yn siarad. Mae rhai ohonynt yn anghofio am bwysigrwydd moesau da, er enghraifft dweud 'os gwelwch yn dda' a 'diolch' wrth bobl eraill ar adegau priodol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn

ymddwyn yn dda yn ystod digwyddiadau ysgol gyfan fel gwasanaeth, amser chwarae ac amser cinio.

Mae disgyblion yn ddysgwyr hyderus. Maent yn rhyngweithio'n dda â phobl ac oedolion newydd. Mae'r disgyblion yn y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco yn cymryd rôl weithredol wrth wneud penderfyniadau. Caiff y rhain ddylanwad cadarnhaol iawn ar yr ysgol, ac maent yn rhoi ymdeimlad o gyfrifoldeb i'r disgyblion. Maent yn gweithio'n agos gyda'r cyngor lleol, er enghraifft i gael rheiliau diogelwch ychwanegol o amgylch safle'r ysgol. Mae hyn yn eu helpu i fod yn ddinasyddion moesegol a gwybodus, sy'n deall eu hawliau a'u cyfrifoldebau.

Mae cyfraddau presenoldeb yn yr ysgol yn dda ac maent wedi gwella'n sylweddol ers yr arolygiad diwethaf. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyrraedd yn brydlon ar ddechrau'r diwrnod ysgol.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Mae'r cwricwlwm yn darparu ystod gynhwysfawr o brofiadau dysgu, ac o ganlyniad, daw disgyblion yn ddysgwyr hyderus a gwybodus. Er enghraifft, ceir digonedd o gyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan yn y celfyddydau creadigol. Yn ystod yr arolygiad, bu disgyblion Blwyddyn 6 yn cymryd rhan yng Ngŵyl Shakespeare yn Theatr y Colisëwm, Aberdâr, yn llwyfannu golygfeydd o Macbeth, y maent wedi'u hastudio yn y dosbarth. Mae pob disgybl ym Mlwyddyn 5 yn dysgu chwarae'r trombôn ar hyn o bryd, a chânt gyfle i barhau â'u dysgu ar ôl yr ysgol mewn cerddorfa ieuenctid leol. Caiff disgyblion yn y cyfnod sylfaen gyfleoedd gwerth chweil i ddysgu yn yr awyr agored. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlwyddyn 1 yn mwynhau creu eu bwyd pry cop eu hunain ar gyfer Spiderella o gynhwysion y daethpwyd o hyd iddynt y tu allan, ac wedyn yn ysgrifennu cyfarwyddiadau i ddisgyblion eraill ddilyn eu rysáit.

At ei gilydd, mae ansawdd yr addysgu'n dda. Mae athrawon yn cynllunio testunau ystyriol sy'n ennyn diddordeb bron pob un o'r disgyblion. Mae gweithgareddau cyffrous yn helpu disgyblion i ddysgu a gwneud cynnydd da. Mae athrawon yn gofyn ystod bwrpasol o gwestiynau i annog disgyblion i feddwl yn fanylach am eu dysgu. Er enghraifft, mae disgyblion yn y dosbarth derbyn yn ystyried yn ofalus faint y bwmpen sydd ei hangen i wneud y pen gorau ar gyfer eu bwgan brain, Tattybogle, gan ddefnyddio iaith fathemategol briodol. Mae cynorthwywyr cymorth dysgu yn gweithio gyda disgyblion llai abl yn effeithiol, er enghraifft i gyflwyno ymyriadau i helpu'r disgyblion hyn i gyrraedd y lefelau disgwyliedig.

Ceir perthnasoedd gweithio cryf rhwng oedolion a disgyblion. Yn gyffredinol, mae athrawon yn rheoli ymddygiad disgyblion yn effeithiol mewn gwersi, ac o ganlyniad, mae bron pob un o'r disgyblion yn canolbwyntio'n dda ar dasgau. Mewn rhai gwersi, mae'r rhediad yn rhy araf, ac nid yw'r tasgau'n ennyn diddordeb rhai disgyblion yn ddigon gweithredol. Yn yr achosion hyn, mae disgyblion yn rhoi'r gorau i ganolbwyntio ac mae eu diddordeb yn pylu.

Mae athrawon yn rhoi adborth defnyddiol i ddisgyblion, sy'n eu helpu i wella'u gwaith. Maent yn darparu rhagor o gyfleoedd i ddisgyblion ymarfer medrau penodol, y mae athrawon yn eu nodi'n effeithiol gan ddefnyddio marcwyr penodol. Mae llawer o ddisgyblion yn ymateb yn brydlon i sylwadau ac adborth ysgrifenedig athrawon, sy'n

eu helpu i wella'u gwaith.  Mae athrawon yn asesu gwaith disgyblion yn gywir ac yn gwneud defnydd da o'r wybodaeth hon i gynllunio ar gyfer y camau nesaf yn nysgu'r disgyblion.

Ceir darpariaeth gynhwysfawr a dilyniadol i ddisgyblion ddysgu Cymraeg, a rhoddir cyfleoedd gwerthfawr iddynt ddysgu am ddiwylliant a threftadaeth Cymru.  Er enghraifft, ymwelodd disgyblion Blwyddyn 3 â Chastell Caerffili yn ddiweddar, fel rhan o'u gwaith testun.  Maent yn cymharu a chyferbynnu delweddau o'r castell gan wahanol arlunwyr er mwyn llywio eu gwaith celf eu hunain.  Mae arddangosfeydd o gwmpas yr ysgol yn dathlu gwyddonwyr o Gymru yn effeithiol, ac mae athrawon yn hyrwyddo awduron o Gymru yn dda.  Mae'r ysgol wedi datblygu Criw Cymraeg sy'n cyfarfod bob wythnos.  Maent yn penderfynu ar ymadrodd yr wythnos ac yn annog disgyblion i ddefnyddio'r ymadrodd ar y maes chwarae.  Mae llawer o athrawon a rhai cynorthwywyr addysgu yn defnyddio'r Gymraeg yn briodol trwy gydol y dydd, er enghraifft wrth ganmol disgyblion, neu roi cyfarwyddiadau iddynt.

Ceir cyfleoedd cydlynol a chynlluniedig i'r holl ddisgyblion ddatblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a'u medrau digidol, trwy wersi a chyfleoedd penodol i gymhwyso'r medrau mewn meysydd dysgu eraill.  Er enghraifft, mae disgyblion yn y cyfnod sylfaen yn dysgu darllen ac ysgrifennu eu synau'n effeithiol trwy sesiynau ffoneg byr, ffocysedig a rheolaidd.  Mae'r cwricwlwm yn cynnwys cyfleoedd gwerth chweil i bron pob un o'r disgyblion fwynhau ystod dda o lenyddiaeth a nofelau clasurol plant, fel rhan o'u gwaith testun.  Yn ychwanegol, mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud defnydd da o lyfrgell yr ysgol i feithrin cariad at lyfrau a darllen. Mae'r ddarpariaeth hon wedi bod yn hynod effeithiol o ran cefnogi'r gwelliannau i fedrau darllen ac ysgrifennu disgyblion.

### Gofal, cymorth ac arweiniad:  Da

Mae arweinwyr yn olrhain cynnydd yr holl ddisgyblion yn drylwyr.  Defnyddiant wybodaeth am berfformiad disgyblion i ddarparu cymorth a her werthfawr ar gyfer unrhyw ddisgyblion sydd mewn perygl o fod ar ei hôl hi yn eu gwaith, er enghraifft trwy raglenni ymyrraeth.  Mae athrawon yn gwneud defnydd da o'r wybodaeth hon hefyd i sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn eu dosbarth yn gwneud y cynnydd y dylent ei wneud, o leiaf.

Ceir darpariaeth dda iawn ar gyfer disgyblion ag anghenion ychwanegol.  Mae'r cydlynydd yn nodi'r disgyblion hyn yn gynnar yn eu bywyd ysgol.  Mae'r ysgol yn cynnwys rhieni wrth nodi cynllun cymorth addas, mewn partneriaeth ag asiantaethau arbenigol lle bynnag y bo'n briodol.  Mae oedolion yn gwneud defnydd effeithiol o amrywiaeth eang o raglenni ymyrraeth teilwredig, er enghraifft i gefnogi medrau cymdeithasol ac emosiynol disgyblion, neu ar gyfer disgyblion hŷn y gallai'r cyfnod trosglwyddo i'r ysgol uwchradd fod yn anodd iddynt.

Mae athrawon ac arweinwyr yn meithrin perthynas gadarnhaol iawn gyda rhieni, sy'n gwerthfawrogi'r croeso cynnes a gânt yn yr ysgol.  Ceir rhaglen werth chweil ar gyfer rhieni'r dosbarth derbyn i'w helpu i gynorthwyo eu plant â medrau llythrennedd a rhifedd.  Yn ychwanegol, mae rhieni ar draws yr ysgol yn gwerthfawrogi gweithdy diweddar i'w cynorthwyo i ddatblygu medrau meddwl a rhesymu eu plant.

Mae partneriaethau effeithiol yn sicrhau bod gan ddisgyblion y wybodaeth a'r ddealltwriaeth i ddatblygu dewisiadau ynglŷn â ffordd iach o fyw. Er enghraifft, trwy waith gydag elusen i blant, mae disgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth dda o bwysigrwydd perthnasoedd iach a chadw'n ddiogel. O ganlyniad, mae'r ysgol wedi cyflwyno cyfryngwyr cyfoedion, sy'n helpu disgyblion i ddatrys unrhyw fân gweryla ymhlith eu hunain a chwarae gyda'i gilydd yn dda. Mae'r ysgol yn trefnu darpariaeth briodol ar gyfer bwyta ac yfed yn iach.

Mae gweithdrefnau diogelu'r ysgol yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Ceir trefniadau da i fonitro a datrys yr achosion prin iawn o fwlio sy'n digwydd. Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi adfywio'i dulliau o hyrwyddo ymddygiad da. Er enghraifft, mae disgyblion yn y cyfnod sylfaen yn ymateb yn dda i ganmoliaeth trwy'r bwrdd cydnabod. Fodd bynnag, ni wneir defnydd cyson eto o'r system gwobrau a chosbau ar draws pob dosbarth.

Mae cyfleoedd gwerth chweil i ddisgyblion fyfyrio ar eu dysgu a'u lles. Er enghraifft, yn ystod gwasanaethau, mae oedolion a disgyblion yn trafod gwerth y mis yr ysgol ac yn ei gysylltu â chyfeillgarwch disgyblion a'r defnydd gorau o'r 'fainc ffrindiau'. Mae testunau a ddewiswyd yn dda yn ennyn chwilfrydedd disgyblion ac yn eu hannog i gwestiynu'r byd o'u cwmpas. Ceir llawer o gyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu hymwybyddiaeth ddiwylliannol trwy gerddoriaeth a pherfformio, gan gynnwys cymryd rhan mewn amrywiaeth eang o gynyrchiadau, gwasanaethau a chyngherddau. Mae'r rhain yn helpu i hyrwyddo lefelau uchel o hunan-barch a hyder ymhlith disgyblion.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da

Mae'r uwch dîm arweinyddiaeth wedi arwain yr ysgol trwy gyfnod o newid cyflym sydd wedi cael effaith gadarnhaol iawn ar bob agwedd ar waith yr ysgol. Mewn cyfnod cymharol fyr, mae arweinwyr wedi gwella meysydd pwysig, gan gynnwys y safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni, a'u lefelau presenoldeb. Mae gweledigaeth y pennaeth ar gyfer yr ysgol yn canolbwyntio'n gadarn ar wella deilliannau ar gyfer disgyblion. Mae hi wedi cyfleu hyn yn dda i gymuned ehangach yr ysgol. Mae pob un o'r staff yn rhannu ymrwymiad ar y cyd i weledigaeth a gwerthoedd yr ysgol. Mae'r pennaeth a'r dirprwy bennaeth yn fodelau rôl cryf a phroffesiynol, ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o ddisgyblion, athrawon a chynorthwywyr cymorth dysgu.

Mae'r pennaeth a'r dirprwy bennaeth yn meddu ar ddealltwriaeth dda o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu. Maent yn rhoi prosesau monitro ac arfarnu cynhwysfawr ar waith sy'n gwneud defnydd effeithiol o ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol. Mae'r rhain yn cynnwys craffu ar waith disgyblion, gofyn am farn disgyblion, rhieni a llywodraethwyr, ac arsylwi'r addysgu a'r dysgu yn rheolaidd. Mae'r arsylwadau hyn yn fuddiol i athrawon o ran gwella'u harfer yn yr ystafell ddosbarth, ond nid ydynt yn canolbwyntio'n ddigon craff ar ddysgu a'r safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni mewn gwersi. O ganlyniad, nid yw'r barnau sy'n cael eu llunio ar ansawdd yr addysgu bob amser yn cysylltu'n ddigon agos â deilliannau disgyblion, ac ansawdd eu dysgu. Mae arweinwyr yn defnyddio'r wybodaeth o weithgareddau monitro yn bwrpasol i gynllunio blaenoriaethau gwella'r ysgol. Mae'r ysgol yn mynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol yn dda. Er enghraifft, mae cynlluniau i roi'r fframwaith cymhwysedd digidol ar waith yn datblygu'n llwyddiannus, ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar fedrau TGCh disgyblion.

Mae athrawon a chynorthwywyr addysgu yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i yrru blaenoriaethau gwella'r ysgol ymlaen yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae arweinwyr wedi rhoi llawer o strategaethau gwahanol ar waith i godi proffil darllen. Mae'r rhain yn cynnwys defnyddio tadau a theidiau fel modelau rôl cadarnhaol ar gyfer bechgyn, a chynnwys disgyblion mewn dewis deunyddiau darllen sydd ar gael mewn ysgolion. Yn ychwanegol, defnyddiant y llyfrgell leol i ennyn diddordeb disgyblion mewn diwrnodau thema wedi'u cysylltu â'r cwricwlwm. Mae oedolion yn darparu ymyriadau darllen dal i fyny ar gyfer disgyblion sydd ar ei hôl hi â'u medrau darllen. O ganlyniad i'r dull amlweddog hwn, mae safonau darllen ar draws yr ysgol wedi gwella'n sylweddol. Hefyd, mae gan ddisgyblion agweddau mwy cadarnhaol at lyfrau a darllen.

Mae athrawon a chynorthwywyr cymorth dysgu yn elwa ar ystod bwrpasol o gyfleoedd datblygiad proffesiynol. Mae'r rhain yn cynnwys ymgysylltu ag ysgolion eraill i weithio ar ffocws cyffredin, a mynychu cyrsiau a digwyddiadau i wella'r medrau sydd eu hangen i ymgymryd â'u rolau. Mae hyfforddiant yn cysylltu'n dda â blaenoriaethau'r ysgol. Mae uwch arweinwyr yn rheoli perfformiad staff yn effeithiol ac yn rhoi adborth clir ar yr hyn y maent yn ei wneud yn dda a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella. Caiff yr holl athrawon yn yr ysgol gyfleoedd i arsylwi ei gilydd yn eu hystafelloedd dosbarth a rhannu arfer dda. O ganlyniad, mae dulliau o addysgu a dysgu ar draws yr ysgol yn gynyddol gyson. Mae'r pennaeth wedi cydnabod bod angen datblygu medrau uwch arweinwyr newydd a benodwyd ac athrawon sy'n arwain meysydd pwnc er mwyn rhannu cyfrifoldebau arwain yn ehangach. Er enghraifft, mae adolygiadau pwnc a gynhaliwyd yn ddiweddar wedi helpu athrawon i gael dealltwriaeth well o'r cryfderau a'r diffygion yn eu meysydd cyfrifoldeb.

Mae'r corff llywodraethol yn darparu cymorth cryf ar gyfer yr ysgol. Mae llywodraethwyr yn gwybod yn dda beth yw cryfderau'r ysgol, a'r meysydd i'w gwella. Maent yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd i gasglu tystiolaeth uniongyrchol, er enghraifft trwy ddarllen gyda disgyblion a gwrando ar ddysgwyr. Mae gan aelodau o'r corff llywodraethol ystod eang o fedrau ac arbenigedd, er enghraifft o ran deall data perfformiad. Defnyddiant y medrau hyn yn effeithiol i herio arweinwyr yr ysgol i wella'r ysgol mewn meysydd pwysig, er enghraifft ym medrau ysgrifennu disgyblion. Mae llywodraethwyr unigol yn defnyddio'u medrau i ddarparu cymorth i'r ysgol, er enghraifft trwy gynnal undeb credyd i helpu disgyblion i ddysgu am werth cynilion rheolaidd.

Ceir trefniadau effeithlon i reoli cyllid ac adnoddau'r ysgol. Mae arweinwyr yn defnyddio cyllid grant yn effeithiol i gynorthwyo disgyblion targedig, er enghraifft trwy ddarparu ymyriadau addas, ac i brynu adnoddau sydd o fudd i'r holl ddisgyblion, fel cyfrifiaduron llechen ac offer ar gyfer maes chwarae'r ysgol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 11/01/208